






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

11 Medi 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

11 Medi 2020

Crynodeb o’r Prif Bwyntiau

- Mae'r patrwm o gynnydd mewn achosion yn debyg i'r sefyllfa ym mis Chwefror. Dylid cymryd camau i atal niwed sylweddol sy'n deillio o COVID-19 neu gyfnod arall o gyfyngiadau symud llym.
- Er bod SAGE yn amcangyfrif bod y rhif R ar gyfer Cymru rhwng 0.7 ac 1.0, credwn fod y rhif R presennol yn uwch nag y mae hyn yn ei awgrymu.
- Ar gyfer yr wythnos 30 Awst i 5 Medi, mae canlyniadau astudiaeth heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod gan 0.04% o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19. Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 2,600, neu gyfanswm o 1,200 o bobl yn ystod y cyfnod hwn. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau hyn oherwydd meintiau sampl isel.
- Mae nifer yr episodau o COVID-19 a gadarnhawyd mewn labordai wedi cynyddu'n genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae nifer yr achosion mewn grwpiau oedran penodol bellach ar eu huchaf ymhlith pobl 30-49 oed a phobl sy'n iau na 30 oed.
- Mae achosion diweddar wedi cynnwys teithwyr yn dychwelyd o wledydd y tu allan i'r DU a hefyd trosglwyddiadau lleol mewn gweithleoedd a rhwydweithiau cymdeithasol. Mae gweithgarwch mewn ysgolion wedi'i nodi'n ddiweddar.
- Mae ffocws gweithgarwch diweddar wedi bod yng Nghaerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn bennaf, er bod tueddiadau cynyddol wedi'u nodi mewn awdurdodau lleol eraill.
- Caiff papurau gan SAGE a ystyriwyd gan y Cell Cyngori Technegol a'r Grŵp eu cyhoeddi yma: <https://www.gov.uk/government/collections/scientific-evidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-covid-19#meeting-minutes-and-supporting-papers>.
- Cyhoeddwyd datganiad consensws ar brofi teithwyr sy'n dychwelyd i Gymru o ardaloedd lle mae nifer fawr o achosion yr wythnos hon. Mae papurau a gyhoeddwyd gan y Grŵp Cyngori Technegol ar gael yma: <https://llyw.cymru/cyngor-ar-y-coronafeirws-gan-y-gell-cyngor-technegol>

Cyfradd twf

- Mae'r gyfradd twf bresennol yn debygol o fod yn bositif. Drwy gyfrifo, amcangyfrifir ei fod rhwng -0.05 a 0.04. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y gyfradd twf wirioneddol oherwydd y nifer bach o achosion sydd mewn ysbytai. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfradd twf a rhif atgynhyrchu Cymru gan ei fod yn destun ansicrwydd.

Rhif atgynhyrchu


- Er bod SAGE yn amcangyfrif bod y rhif R_t ar gyfer Cymru rhwng 0.7 ac 1.0, nid yw'r amcangyfrif hwn yn ystyried y data achos diweddaraf. Gwyddom fod achosion yn cynyddu yng Nghymru, a bod y rhif R_t gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch na hyn.
- Bydd gwerth R_t sy'n gyson o dan 1 yn arwain at leihad mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty, ond bydd gwerth R_t sy'n gyson uwch nag 1 yn arwain at gynnydd mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty. Wrth i nifer yr achosion ostwng, gall effaith digwyddiadau gor-wasgaru gynyddu lle gall achosion o ledaenu'r feirws i nifer o bobl mewn cyfnod byr o amser arwain at amrywiadau yn nifer yr achosion.
- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bychan yn y R_t rhwng gwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.
- Ni fydd unrhyw newidiadau mewn trosglwyddiadau a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf wedi cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o R_t .
- Mae dau leoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: ardaloedd trefol a gwledig, lle mae'r epidemig yn lledaenu'n wahanol. Mae'n bosibl bod nifer yr achosion diweddar sy'n gysylltiedig â theithio rhyngwladol wedi bod yn arwyddocaol o ran cynyddu'r haint yng Nghymru.

Amser haneru

- Ni ellir amcangyfrif amcangyfrifon dibynadwy o amseroedd haneru ar hyn o bryd oherwydd y niferoedd isel o dderbyniadau.

Glynu at y mesurau presennol a symudedd


- Mae [data diweddaraf IPSOS MORI](#) ar gyfer Cymru yn dangos gostyngiadau yn y rhai sy’n sicrhau eu bod yn fwy na 2 fetr ar wahân i eraill. Bu gostyngiadau pellach yn y rhai a oedd yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi trafndiaeth gyhoeddus nad yw’n hanfodol. Mae’n bosibl bod y gostyngiadau hyn wedi digwydd o ganlyniad i newidiadau mewn canllawiau trafndiaeth gyhoeddus ganol mis Awst yn ogystal â’r cyfnod diweddaraf a oedd yn cynnwys penwythnos gŵyl y banc ym mis Awst.
- Mae’r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o’r tonnau wedi cynnwys tua 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae’r sampl yn fras yn cynrychioli’r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae’r data’n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.



- Mae data symudedd ar gyfer Cymru yn dangos gostyngiadau yn ystod yr wythnos diwethaf. Roedd y DU yn debyg ar y cyfan.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd [symudedd defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na’r llinell sylfaen, mae hyn 3% yn is na’r llinell sylfaen ac mae wedi

gostwng o'r wythnos diwethaf. Mae 23% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros yn eu hardal, yn debyg i'r wythnos flaenorol. Ar ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros yn eu hardal – roedd hyn tua 18% ar ddechrau mis Mawrth.

- Mae [data Apple](#) sy'n dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr wythnos diwethaf. O'i gymharu â'r llinell sylfaen, mae'r data'n uwch na'r gwledydd eraill, ond mae'r bwlch wedi lleihau yn ystod yr wythnos diwethaf. Mae data newydd gan Apple ar geisiadau am gyfarwyddiadau cerdded yn dangos gostyngiad yn ystod yr wythnos diwethaf, tra bod ceisiadau am lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus yn dangos gostyngiad bach.
- Mae [data symudedd Google](#) yn dangos gostyngiadau mewn manwerthu a hamdden, archfarchnadoedd a fferylliaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud, roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelwyd cynnydd mwy mewn symudedd yn Lloegr na Chymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny drwy gydol mis Awst. Mae'r wythnos gyntaf ym mis Medi yn dangos gostyngiadau mewn symudiadau yng Nghymru gyda data ar gyfer Lloegr yn dangos ychydig o newid yn bennaf.
- Yn ôl data ffôn symudol, mae tystiolaeth o ostyngiad mawr mewn teithiau sy'n gorffen yng Nghaerffili yn dilyn cyflwyno cyfyngiadau teithio.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod o 5 wythnos rhwng 3 Ionawr a 6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen.



Astudiaeth Heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Ar gyfer yr wythnos rhwng 30 Awst a 5 Medi, roedd gan gyfartaledd o 0.04% o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 0.01% i 0.09%).
- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 2,600 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 10,900 i 1 o bob 1,100), neu 1,200 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 300 i 2,800).
- Mae'r data'n awgrymu bod y gyfradd wedi bod yn weddol sefydlog dros y 6 wythnos diwethaf. Dylid cymryd gofal i ystyried natur yr arolwg gan fod heintiau lleol yn dangos cynnydd yn nifer yr achosion mewn lledaeniad anwastad.
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon, a darperir cyfyngau credadwy i ddangos yr ystod y gallwn fod yn hyderus bod y ffigur gwirioneddol yn gorwedd ynddi.

Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 5471 o gleifion Cymru wedi'u recriwtio i gymryd rhan mewn astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy'n gynydd o 102 yn y 7 diwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw lechyd Cymru sy’n ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau’n isel ond mae wedi cynyddu.
- Gwelwyd brig yn nifer y galwadau am ambiwlans am resymau a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 ym mis Ebrill a maent wedi syrthio ac yn sefydlog erbyn hyn. Mae derbyniadau i’r ysbyty a’r Uned Gofal Dwys hefyd yn isel ac yn sefydlog.
- Mae nifer yr achosion sy’n benodol i grwpiau oedran bellach ar eu huchaf ymhlith y rhai 30-49 oed ac yn iau na 30 oed.
- Mae achosion diweddar wedi cynnwys teithwyr yn dychwelyd o wledydd y tu allan i’r DU a hefyd trosglwyddiadau lleol mewn lleoedd gwaith a rhwydweithiau cymdeithasol.
- Mae gweithgarwch mewn ysgolion wedi’i nodi yn ddiweddar.
- Mae ffocws gweithgarwch diweddar wedi bod yng Nghaerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn bennaf, er bod tueddiadau cynyddol wedi’u nodi mewn awdurdodau lleol eraill.
- Mae 1 i 10 digwyddiad newydd yn parhau i gael eu hadrodd yr wythnos, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, ond gyda chynnydd diweddar mewn lleoliadau eraill gan gynnwys clystyrau ymhlith teulu a ffrindiau ac mewn gweithleoedd.

Dangosfwrdd Data’r GIG

- Diweddarwyd data ysbytai ar 10/09/2020


UNEDAU GOFAL DWYS LEFEL 3


- O blith y cyfanswm o 151 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi cynyddu o 129 ers yr adroddiad blaenorol):
 - Mae 2 yn gleifion y cadarnhawyd bod COVID arnynt (1 ym Mwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac 1 ym Mwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro)
 - Mae 5 yn gleifion yr amheuir bod COVID arnynt (2 ym Mwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 1 ym Mwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda, 1

ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro)

- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys Iefel 3:
 - Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn 81% (gydag 1 claf yr amheuir bod COVID arno)
 - Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn 74% (gydag 1 claf y cadarnhawyd bod COVID arno)
 - Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn 62% (gydag 1 claf yr amheuir bod COVID arno)
 - Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 59% (i gyd yn gleifion heb COVID)
 - Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro yn 57% (gydag 1 claf yr amheuir bod COVID arno, ac 1 y cadarnhawyd bod COVID arno)
 - Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn 44% (gyda 2 glaf yr amheuir bod COVID arnynt).

Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients





Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

